# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU:

## ADRAN 1 & 8

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) – Adolygiad Asesiad Effaith Integredig** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm)**: | **Tîm ADUS - Sarah Lamberton, Liane James, Louise Fradd** |
| **Adran:** | **Galluogi Pobl** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Alistair Davey** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol:** | **Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Medi 2022 (wedi'i ddiweddaru ar ôl ymgynghoriad Ionawr 2024, yna cyn cyhoeddi Gorffennaf 2024)** |

# CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ..... 3

Adran 8. Casgliad ..... 6

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

(DS - bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau statudol newydd ar yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) i'w cyhoeddi o dan adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*[1].

Nod datblygu'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yng Nghymru yw:

a) Adeiladu ar arferion da a ddaeth i'r amlwg o greu'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant a ddisodlodd y canllawiau Adolygiad Achos Difrifol blaenorol ym mis Ebrill 2016. Mae'r prosesau'n helpu i sicrhau dealltwriaeth well o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod digwyddiad a pham iddo ddigwydd. Mae'r dull gweithredu yn gwella'r ddealltwriaeth o effeithiau a gafodd gweithredoedd sefydliadau ac asiantaethau ac a allai gweithredu'n wahanol fod wedi arwain at ganlyniadau gwahanol i'r plentyn neu'r oedolyn a oedd yn wynebu risg. Y nod cyffredinol yw creu amgylchedd dysgu.

b) Gweithredu canfyddiadau adolygiad academaidd 2018 dan arweiniad yr Athro Amanda Robinson (2018)[2] o Brifysgol Caerdydd ac adolygiad ymarferydd Llywodraeth Cymru gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Liane James (2018)[3]. Roedd yr adroddiadau'n dadansoddi'r dirwedd bresennol ar gyfer adolygiadau diogelu ochr yn ochr â sampl o Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl. Roedd yr adroddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i wella cydlynu, cydweithio, cyfathrebu, a llywodraethu wrth gynnal adolygiadau yng Nghymru. Roedd yr adroddiadau'n gwneud argymhellion yn seiliedig ar eu canfyddiadau, ac adlewyrchir y rhain yn y broses ADUS newydd. Hefyd, fe wnaeth yr adroddiadau ddatgelu sefyllfa gymhleth lle'r oedd cyrff datganoledig a heb eu datganoli yn cynnal adolygiadau ar wahân ac mewn rhai achosion heb yn wybod i Lywodraeth Cymru, a heb ei chyfraniad. Arweiniodd hyn yn y pen draw at yr argymhelliad am broses adolygu sengl.

Roedd y dystiolaeth gyfunol o'r adolygiad academaidd a'r adolygiad ymarferydd a grybwyllir uchod yn rhoi tystiolaeth bwerus i Weinidogion Cymru o blaid yr angen i newid prosesau adolygu yng Nghymru. O ganlyniad, datblygwyd ADUS i gryfhau'r dirwedd adolygu yng Nghymru. Bydd ADUS yn:

---

[1] Adran 139 *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Adran 139

[2] Robinson, A., Rees, A. a Dehaghani, R. (2018) 'Findings from a thematic analysis of reviews into adult deaths in Wales: *Domestic Homicide Reviews, Adult Practice Reviews and Mental Health Homicide Reviews'*

[3] James, L. (2018) '*Domestic Homicide Reviews in Wales: Illuminate the Past to Make the Future Safer'*

- creu un broses adolygu sy'n cwmpasu dull amlasiantaeth lle bodlonir y meini prawf ar gyfer **un neu fwy** o'r adolygiadau canlynol:
    - Adolygiad Ymarfer Oedolion;
    - Adolygiad Ymarfer Plant;
    - Adolygiad Lladdiad Domestig;
    - Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; ac
    - Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol[4].
- dileu'r angen i deuluoedd gymryd rhan mewn cylch beichus a thrawmatig o roi gwybodaeth a disgwyl am gasgliadau adolygiadau niferus;
- sicrhau bod y testun a'r teulu wrth wraidd y broses;
- defnyddio'r ddealltwriaeth a'r hyn a ddysgwyd o'r broses Adolygu i sicrhau newid cadarnhaol mewn ymarfer i atal niwed yn y dyfodol;
- darparu rhwydwaith cymorth gwell, gan sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn goruchwylio argymhellion ar gyfer gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli yng Nghymru, drwy uwchgyfeirio problemau neu faterion i'r Bwrdd Gweinidogol;
- darparu cymorth drwy Hwb Cydgysylltu ADUS i'r Byrddau Diogelu sy'n rheoli’r broses ADUS;
- sicrhau cysylltiadau clir rhwng cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol tra'n parchu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn trefniadau;
- cadw adroddiadau terfynol ADUS mewn storfa ganolog (Storfa Ddiogelu Cymru) a hwyluso hyfforddiant Cymru gyfan a dysgu lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol; a
- defnyddio Storfa Ddiogelu Cymru a dysgu cysylltiedig er mwyn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion, prosesau a diwylliannau a fydd yn atal niwed yn y dyfodol.

Datblygwyd proses ADUS a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig o ganlyniad i gydweithio traws-sector sylweddol â phartneriaid gan gynnwys Byrddau Diogelu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, y Swyddfa Gartref, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sefydliadau Iechyd a’r trydydd sector. Mae'r cydweithio hwn wedi parhau ar hyd y broses ddatblygu bum mlynedd ac wedi arwain at greu Rhwydwaith Cymorth ADUS i sicrhau bod y partneriaid cywir o gwmpas y bwrdd i helpu i gyflawni'r broses ADUS.

Roedd llais dioddefwyr a theuluoedd yn ystyriaeth allweddol gydol y broses ymgysylltu hon. O ganlyniad i adborth gan randdeiliaid sydd wedi ymwneud â datblygu ADUS, sefydlwyd Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd. Mae'r Grŵp hwn bellach yn rhan

[4] Bydd Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol yn cael eu treialu (2023) gan ddefnyddio'r broses ADUS yng Nghymru, ac felly gallant newid.

allweddol o'r Rhwydwaith Cymorth newydd a bydd yn parhau i lunio a llywio cyfeiriad ADUS yn y dyfodol a lledaenu dysgu cysylltiedig. Gweler Atodiad 1 am restr o bartneriaid fu ynghlwm â datblygu’r ADUS a throsolwg o Rwydwaith Cymorth ADUS.

Yng Ngwanwyn 2023 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ar y Canllawiau Statudol drafft ar gyfer ADUS. Roedd yr ymarfer ymgynghori yn targedu dros 315 o unigolion a chafwyd 48 o ymatebion. Ym mis Medi 2023 cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i’r ymgynghoriad ac mae newidiadau bellach wedi'u gwneud i'r Canllawiau Statudol o ganlyniad i'r adborth i'r ymgynghoriad a’r dadansoddiad.

Mae'r ADUS yn cyd-fynd â'n dyhead ehangach am Wasanaeth Cyhoeddus Cymru’n Un. Yn unol â'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rydym yn gwybod mai dim ond trwy gefnogi dull integredig a chydweithredol o ymdrin â pholisi a chyflawni sy'n chwalu seilos, yn dwyn ynghyd ddealltwriaeth o feysydd arbenigedd gwahanol ac yn annog gwaith partneriaeth ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan yn ogystal â gyda phartneriaid cymdeithasol ehangach, y gallwn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r ADUS yn gosod fframwaith ar gyfer sut dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol weithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau eraill yn yr ardal fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn diogelu pobl rhag niwed – gan rannu gwersi a sicrhau ein bod yn cydweithio i sicrhau lles pob unigolyn yng Nghymru.

Bydd esblygu arferion yn y ffordd hon yn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben mewn cymdeithas sy'n newid drwy’r amser. Bydd hyn yn helpu i atal digwyddiadau tebyg ac yn lleihau niwed yn y dyfodol.

## ADRAN 8. CASGLIAD

(DS: bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

**8.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu?**

Datblygwyd ADUS ar y cyd â rhanddeiliaid ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Maen nhw wedi gallu cynghori Llywodraeth Cymru ar sut i ddatblygu'r broses i sicrhau ei bod yn addas i'r diben ac yn ymgysylltu'n effeithiol â'r grwpiau hyn. Roeddem yn ofalus i osgoi achosi trawma pellach i'r unigolion, trwy weithio gydag eiriolwyr a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu eu safbwyntiau (roedd hyn yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector a wnaeth gynrychioli/gweithio ochr yn ochr â phobl â nodweddion gwarchodedig). Roedd hyn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth gofnodi eu profiadau.

Treialwyd y broses ADUS gan Fyrddau Diogelu yng Nghymru a defnyddiwyd adborth a gafwyd drwy ymgysylltu â'r oedolion a'r plant a oedd yn rhan o'r achosion (naill ai fel dioddefwyr, neu aelodau o deulu testun yr adolygiad) i fireinio prosesau ADUS ymhellach.

Roedd y grwpiau Gorchwyl a Gorffen a'r Grŵp Llywio, a fu'n helpu i ddatblygu'r broses ADUS, yn cynnwys rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg iaith gyntaf. Sicrhaodd y grwpiau hyn y byddai'r holl ddeunyddiau cyhoeddus (h.y. templedi, hyfforddiant ac adnoddau dysgu) a grëir ar gyfer ADUS ar gael yn y Gymraeg.

Fel y nodir yn Adran 1a, cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Darparwyd fersiynau hawdd eu deall ac addas i bobl ifanc o'r dogfennau ymgynghori. Cynhyrchwyd yr holl ddeunyddiau ymgynghori yn Gymraeg a Saesneg a darparwyd cyfleoedd i ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r adnoddau ar y we sydd ar gael trwy wefan LLYW.CYMRU yn cael eu creu'n hygyrch.

Fel y nodir yn Adran 1a, mae Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd ADUS pwrpasol bellach yn helpu i roi proses ADUS ar waith.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Bydd y mesurau yn y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a'r oedolion sy'n wynebu risg y mae'r broses ADUS yn ceisio eu hamddiffyn. Yn unol â *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*,[5] bydd y broses ADUS yn cynhyrchu dysgu drwy adolygiadau a fydd yn llywio ac yn gwella arferion a gwasanaethau yn y dyfodol. Yn ei dro, bydd hyn yn amddiffyn ac yn diogelu cymunedau rhag niwed. Bydd y broses ADUS yn sicrhau bod y dysgu hwn

---

[5] *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015.* https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1466/contents/made/welsh

yn cael ei ledaenu ledled Cymru. Bydd y cynnig yn helpu gwasanaethau i addasu a newid eu harferion yn seiliedig ar y cymunedau sy'n newid drwy'r amser yma yng Nghymru.

Ymarferwyr a ofynnodd am y broses ADUS ac fe grëwyd y broses gyda nhw er mwyn datblygu proses fwy effeithiol ac effeithlon sydd â dull gweithredu manwl ond symlach, drwy:

- gyflwyno un adolygiad sengl ac nid adolygiadau lluosog ar ddigwyddiad;
- creu dull symlach ond manwl ar gyfer adolygiadau sy'n lleihau trawma i deuluoedd ac sy'n lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion, sy'n defnyddio adnoddau ac yn cyflawni'r gwerth gorau;
- llunio adroddiad ADUS sy'n ymwneud â gwella darpariaeth gwasanaethau gyda Chynllun Gweithredu clir a gaiff ei fonitro gan y Byrddau Diogelu perthnasol a Hwb Cydgysylltu ADUS (a'r Bwrdd Goruchwylio Lladdiadau gydag Arfau Ymosodol lle bo hynny'n berthnasol);
- sicrhau bod y dioddefwr/teulu yr effeithiwyd arnynt wrth wraidd y broses adolygu; a
- galluogi rhannu gwybodaeth, argymhellion, a dysgu thematig i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r ADUS yn broses newydd a fydd yn cyfrannu at atal digwyddiadau difrifol ledled Cymru drwy gynhyrchu a rhannu dysgu amlasiantaeth. Am y tro cyntaf, bydd yn rhoi trosolwg cenedlaethol clir i Lywodraeth Cymru o adolygiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru a sut mae'r camau gweithredu a'r dysgu o ADUS yn cael eu rhoi ar waith. Gyda'r oruchwyliaeth hon, a thrwy weithio drwy Rwydwaith Cymorth ADUS, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal sefydliadau'r sector cyhoeddus rhag cyflawni'r newidiadau cadarnhaol a nodwyd.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

- **Cymru lewyrchus** – Mae gan ADUS y potensial i gael effaith gadarnhaol fach iawn ar les economaidd unigolion ac effaith gadarnhaol fach iawn ar gymunedau. Bydd llai o drawma i'r dioddefwr neu'r teulu o ganlyniad i gynnal dim ond un adolygiad yn hytrach nag adolygiadau lluosog yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyfleoedd addysgol.
- **Cymru gydnerth** – Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gadernid gwasanaethau Cymru. Bydd rhannu gwybodaeth rhwng sawl asiantaeth

yn sicrhau bod gwasanaethau ac asiantaethau yn cael eu paratoi'n briodol i gefnogi unigolion ar sail eu hanghenion gwahanol.

- **Cymru iachach -** Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar ganlyniadau lles meddyliol a chorfforol i unigolion. Gall y system adolygiadau lluosog sydd ar waith ar hyn o bryd beri trawma drachefn i ddioddefwyr neu deuluoedd, ac felly cael effaith negyddol ar eu lles. Bydd y broses ADUS yn dileu'r angen am adolygiadau lluosog ac felly bydd yn cael effaith gadarnhaol ar les. Mae effeithiau hirdymor y cynnig hwn hefyd yn golygu y bydd mwy o blant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu diogelu rhag niwed, ac felly'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles meddyliol a chorfforol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal –** Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol gymedrol ar gydraddoldeb. Mae'r cynigion yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys iechyd meddwl, anabledd, oedran, rhywedd ac ethnigrwydd.[i] Mae canllawiau statudol ADUS yn cynnig cyngor ar sut i ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol ac yn sicrhau bod modd addasu'r broses ar sail eu hanghenion. Bydd Hwb Cydgysylltu ADUS yn monitro unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg ac yn ymateb iddynt gydol y cyfnod gweithredu a thu hwnt.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** – Mae gan y cynigion botensial i gael effaith gadarnhaol fach iawn ar gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Mae pobl nad ydynt yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y cyfleoedd hyn. Mae'r cyngor yn y canllawiau yn cynnwys cyngor ar ddiwallu anghenion iaith pobl drwy fynd ati i gynnig gwasanaethau Cymraeg.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Effaith niwtral

### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd yr Hwb Cydgysylltu yn adolygu gweithredu'r ADUS, a bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn rhan o'r adolygiad hwnnw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn gweithio i bawb. Bydd camau sy'n deillio o'r Asesiad Effaith Integredig yn cael eu hychwanegu at Gynllun Gwaith yr Hwb Cydgysylltu.

Unwaith y bydd ADUS ar waith, bydd y broses adolygu yn cael ei monitro'n barhaus, a phwyntiau gwerthuso rheolaidd i sicrhau bod materion a nodwyd yn cael eu hystyried neu fod gwaith yn parhau pan fo angen. Wedi'r 12 mis cyntaf o gyflwyno, bydd Canllawiau Statudol ADUS yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen. Hefyd, bydd yr Hwb Cydgysylltu yn sicrhau bod y rhai sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan broses ADUS a'r rhai sy'n ymwneud â'r broses ADUS yn parhau i ddweud eu dweud a llywio datblygiad ADUS yn y dyfodol, yn enwedig trwy'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd.